

# MAE'R GOLEUNI'N DAL I DYWYNNU

## Llythyr Bugeiliol ar gyfer mis Rhagfyr oddi wrth Esgob Llanelwy At holl ffyddloniaid Teulu Asaph

Mae'r Efengyl yn ôl Sant Ioan yn agor gyda, yn fy marn i, un o'r darnau mwyaf un o ysgrythur. Mae ysgolheigion yn ei alw "y Rhagair", oherwydd, er ei fod yn rhan o hanes Ioan o weinidogaeth Iesu, mae'n dechrau, nid gyda hanes geni Iesu fel yn Efengyl Mathew neu Luc, ond gyda myfyrdod ar arwyddocâd tragwyddol yr Arglwydd. Mae'n sôn am Dduw fel yr un sy'n rhoi Bywyd ac sy'n Oleuni, ac yn datgan: "Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef" (Ioan 1.5)

Mae amwysedd yn y testun, a oedd wedi'i ysgrifennu'n wreiddiol mewn hen Roeg – gallai "ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef" olygu "nad yw'n ei ddeall" neu "nad yw'n gallu ei ddehongli" neu hyd yn oed "nad yw'n gallu ei rwystro". Mae'n golygu gobaith. Waeth pa mor dywyll y mae pethau'n mynd, waeth faint o anrhefn sy'n bygwth llethu, mae goleuni Duw yn dal i dywynnu ac ni all bygythiad o dywyllwch ei orchfygu. Nid yw grym drygioni, sydd mor aml yn hunan-ganolog, yn gallu deall gwir natur Cariad, sef rhoi, rhannu a gwasanaethu – sydd, yn ei hanfod, yn fywiol.

Dyma'r cyd-destun y mae Ioan yn gosod geni Iesu ynddo – Gair Duw yn preswylio yn ein mysg, meddai, yn llawn gras a'r gwirionedd. Ar adeg pan mae digalondid y nosweithiau gaeafol a'r dyddiau oer, cymylog yn gallu diflasu, pan mae'r sôn am gyfnod clo Covid a salwch ym mhobman, gyda phawb yn sylweddoli y bydd y Nadolig yn wahanol eleni, mae'r neges fod goleuni Duw yn ceisio cynnau tân o gariad yn ein calonnau o'r newydd yn newyddion da i'r rhai sy'n troi mewn ffydd i chwilio am gymorth Duw. "Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef".

Mae gan oleuni ansawdd anghoel. Mae hyd yn oed y llewyrch lleiaf o oleuni yn gallu chwalu tywyllwch ac os yw fflam cannwyll yn cael ei rhannu, mae'r goleuni'n dyblu, mae'r ddwy fflam yn llosgi yr un mor llachar. Felly hefyd, mae dangos hyd yn oed ond ychydig o enghreifftiau o gariad yn gallu trawsnewid sefyllfa, ac, nid yw cariad yn teneuo wrth ledaenu ac ni all neb ei atal.

Mae pob un ohonom wedi'n galw i fod yn bobl o gariad, sydd, yn ôl ein bywydau a'n tystiolaeth ein hunain, yn cario fflam cariad Duw i fywydau pobl eraill. Dyma beth ddylai bod yn Eglwys ei olygu mewn gwirionedd. A'm gweddi drosoch chi i gyd y Nadolig hwn yw, yn gyntaf, y byddwch yn adnabod goleuni cariad Duw yn eich bywydau chi eich hunain a'ch teuluoedd, ac yn ail, y byddwch yn gallu cario goleuni i eraill, trwy eich llawenydd, trwy eich cariad, trwy eich parodrwydd i wasanaethu anghenion y rhai sydd o'ch cwmpas.

Mae Cristnogion yn credu fod Duw wedi rhoi ei oll adeg y Nadolig, fod yr Un sy'n Arglwydd Popeth, yr un pryd ar ddechrau a diwedd amser, wedi cyfyngu ei hunan i fywyd baban a anwyd ym Methlehem, fel y byddo fyw bywyd dynol, gan rannu gyda ni yn yr holl dreialon a'r tristwch ac, yn y pendraw, ymladd yn erbyn popeth sy'n ddinistriol, ac yna gorchfygu. Yn ei holl fywyd, roedd Iesu'n asiant o gariad, yn cyflwyno'r rhodd hon i'w ddisgyblion ac yn ei hanfon ar draws y byd ynddyn nhw er mwyn iddi ein cyrraedd ni heddiw. Mae Cristnogion wedi baglu ar adegau ac hyd yn oed wedi gollwng y fflam roedden nhw'n ei chario wrth chwilio am rym yn hytrach na gwasanaethu, ond nid yw'r newyddion da erioed wedi mynd ar goll mewn gwirionedd, yn union fel yr addawodd Iesu.

Ni ellir diffodd fflam cariad Duw ac, i mi, mae'n werth chweil neilltuo cyfnod pob dydd i fod yn llonydd, yn dawel ac yn agored i symudiad yr Ysbryd, er mwyn i mi roi fy hun yng nghanol y cariad hwnnw ac ymuno unwaith eto â symudiad Iesu. "Wrth lonyddu a bod yn hyderus y byddwch gadarn" (Eseia 30.15). Boed i bob un ohonom allu canfod y lle am dawelwch dros y gwyliau a derbyn y gallu i wynebu 2021 gyda hyder fel cludwyr goleuni.

